## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

### Pwyntiau Gweithredu

| Sesiwn Gwrandawiad 6 – Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S6/PG1 | Cyffredinol | Mireinio geiriad polisïau i sicrhau cysondeb o ran disgrifio'r raddfa effaith, h.y. defnydd o 'sylweddol' neu beidio. | Erbyn y Gwrandawiad olaf |
| S6/PG2 | 7.5.2 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gywiro brawddeg olaf paragraff 7.5.2 i nodi bod Ynys Môn i gyd wedi cael ei ddynodi gan UNESCO fel Geoparc. | Erbyn 30/9 |
| S6/PG3 | 7.5.7, 7.5.8 a Thabl 23 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i:<br>• ddisgrifio pwrpas a chynnwys Tabl 23 yn llawnach;<br>• gyfeirio at GeoParc Môn yn Nhabl 23, gan gynnwys manylion am y meini prawf a ddefnyddiwyd gan UNESCO i adnabod y parciau yma;<br>• ddisgrifio materion sy'n penderfynu arwyddocâd dynodiad lleol, cenedlaethol neu ryngwladol a bod angen i bolisïau gydnabod arwyddocâd dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol o'i gymharu a dynodiadau lleol | Erbyn 30/9 |
| S6/PG4 | Polisi AMG 1 & | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i Bolisi AMG 1 a 7.5.11 i: | Erbyn 30/9 |

| Sesiwn Gwrandawiad 6 – Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | 7.5.11 | • beidio cyfeirio at "(un ai o fewn neu'n union du allan iddo) yn y Polisi;<br>• roi arweiniad am bryd allir bod angen roi ddisgrifio pryd fydd yn debygol bydd angen asesiad ardrawiad tirwedd a gweledol;<br>• egluro arwyddocâd y 'Datganiad o Werth Arwyddocâd' fel ystyriaeth cynllunio berthnasol a pha fath o dystiolaeth a ddisgwylir i gefnogi cais cynllunio. | |
| S6/PG5 | PS 16, Maen Prawf 3 / AMG 4 / AMG5 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gryfhau geiriad yr maen prawf ynghyd a Pholisi AMG4 a AMG5. | Erbyn 30/9 |
| S6/PG6 | Map Cyfyngiadau | Ystyried sut i wella arddull cyflwyno gwybodaeth ar gopïau caled o'r map cyfyngiadau, yn ogystal â chyflwyno Newid Materion a Godir i wella'r disgrifiad o gynnwys y mapiau. | Erbyn y gwrandawiad olaf |
| S6/PG7 | Atodiad 7 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gynnwys enwau'r Gwarchodfeydd Natur Leol, Safleoedd Bywyd Gwyllt, Geoparc Môn, a Safle Treftadaeth y Byd. | Erbyn 30/9 |
| S6/PG8 | Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Bywyd Gwyllt | (i) Darparu papur cryno i ddisgrifio Gwarchodfeydd Natur Leol a Safleoedd Bywyd Gwyllt: y broses dynodi, rhesymau dros y dynodiad, a.y.b.<br>(ii) Darparu papur cryno i roi diweddariad o'r gwaith ymchwil | Erbyn 30/9<br><br>Erbyn 7/10 |

| Sesiwn Gwrandawiad 6 – Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | i sefydlu statws Trwyn Wylfa (“Wylfa Head”) | |
| S6/PG9 | AT 1 | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i egluro maen prawf 4. | Erbyn 30/9 |
| S6/PG10 | AT4 | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i gyfeirio tuag at ‘gosodiad’ o fewn testun y polisi. | Erbyn 30/9 |
| S6/PG11 | PS16 & PS17 | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi ym Mholisi PS16 a Pholisi PS17 i gyfeirio at “gwarchod neu wella” yn lle “gwachod a gwella”. | Erbyn 30/9 |